

Hysbysiad Hwylus

Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

Medi 2010

1: Beth yw Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd?

Y Cronfeydd Strwythurol (a'r Gronfa Cydlyniant)¹ yw offerynnau ariannol polisi rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd. Bwriad y polisi yw lleihau'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng rhanbarthau o ran datblygu.²

Mae dwy Gronfa Strwythurol:

1. **Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF):** sy'n darparu cymorth ar gyfer datblygu isadeiledd a buddsoddi cynhyrchiol sy'n creu swyddi; a
2. **Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF):** sy'n ceisio rhoi mynediad at gyflogaeth i bobl ddi-waith a phobl ddifreintiedig, yn bennaf drwy gefnogi gweithgareddau hyfforddi.

Caiff cyllid strwythurol ledled yr Undeb Ewropeaidd ei rannu yn gylchoedd rhaglennu. Dechreuodd y cyfnod presennol yn 2007 a bydd yn dod i ben yn 2013³. Ar hyn o bryd, caiff y cronfeydd strwythurol yng Nghymru eu trefnu ar sail tri amcan:

1. **Cydggyfeiriant:** bwriad yr amcan hwn yw cyflymu'r broses o ddatblygu'r aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau lleiaf datblygedig yn yr UE drwy wella amodau cyflogaeth a thyfiant. Er mwyn bod yn gwbl gymwys ar gyfer yr arian hwn, rhaid i aelod-wladwriaethau a rhanbarthau gael ffigur cynnyrch mewnwladol crynswth y pen o 75 y cant neu lai o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd;⁴
2. **Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol:** bwriad yr amcan hwn yw hyrwyddo arloesedd, entrepreneuriaeth, diogelu'r amgylchedd a datblygu marchnadoedd llafur mewn rhanbarthau nad ydynt yn cael arian cydggyfeirio; a
3. **Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd:** bwriad yr amcan hwn yw atgyfnerthu'r cydweithredu sy'n digwydd rhwng rhanbarthau dynodedig ar draws themâu trefol, gwledig ac arfordirol.

¹ Bwriedir y Gronfa Cydlyniant ar gyfer aelod-wladwriaethau sydd â Chynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen o lai na 90 y cant o gyfartaledd y Gymuned, felly nid yw'n gymwys yn y Deyrnas Unedig.

² Europa: [Structural Funds and Cohesion Fund](#) [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

³ Mae gwybodaeth am yr holl raglenni presennol ar gael ar wefan [Europa](#). [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

⁴ Y Comisiwn Ewropeaidd: [Regional policy key objectives](#) [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

2: Pa gronfeydd strwythurol sydd ar gael yng Nghymru?

Rhwng 2007 a 2013, mae Cymru'n gymwys ar gyfer y tri math gwahanol o raglenni cronfeydd strwythurol:

1. **Cydyfeiriant:** Mae rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys ar gyfer yr cyllid hwn, sef y lefel uchaf o gymorth sydd ar gael o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhanbarth yn cynnwys [pymtheg](#) awdurdod lleol. Cefnogir y rhaglen gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (tua £1 biliwn) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (£690 miliwn).⁵ Amlinellir y mathau o weithgareddau y gellir eu hariannu mewn dwy raglen weithredol. Mae'r rhain yn ymdrin â'r chwe phrif flaenoriaeth a gefnogir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop⁶ a'r pump a gefnogir gan Gronfa Cymdeithasol Ewrop;⁷
2. **Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol:** Mae'r saith awdurdod lleol sy'n weddill yn ffurfio rhanbarth Dwyrain Cymru, ac mae pob un ohonynt yn gymwys ar gyfer cymorth. Sefydlwyd dwy raglen weithredol sy'n ymdrin â'r pum prif flaenoriaeth a gefnogir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop⁸ (tua £60 miliwn) a'r tair a gefnogir gan Gronfa Cymdeithasol Ewrop⁹ (tua £50 miliwn); a
3. **Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd:** mae rhannau o Gymru yn gymwys ar gyfer pedair rhaglen:
 - 3.1. Rhaglen Drawsffiniol Iwerddon / Cymru: tair blaenoriaeth;¹⁰
 - 3.2. Rhaglen Drawswladol Ardal yr Iwerydd: pedair blaenoriaeth;¹¹
 - 3.3. Rhaglen Drawswladol Gogledd-orllewin Ewrop: pum blaenoriaeth;¹² a
 - 3.4. Rhaglen Ryngranbarthol (Interreg IVC): tair blaenoriaeth.¹³

Caiff tua €900 miliwn ei wario ar brosiectau ledled yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ôl Llywodraeth Cymru:¹⁴

Mae'r rhaglenni yng Nghymru, sy'n cael eu darparu gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yn canolbwyntio ar greu swyddi cynaliadwy a thwf a hynny'n unol ag agendâu Lisbon a Gothenburg yr Undeb Ewropeaidd a pholisïau a strategaethau Llywodraeth y Cynulliad.

Y mae agwedd mwy strategol i'r ffordd y caiff y rhaglenni eu cyflawni ar gyfer y cylch rhaglenni hwn, gyda llai o brosiectau mwy strategol yn cyflawni blaenoriaethau'r Rhaglenni Gweithredol. Bydd yr agwedd hon yn sicrhau nad oes cymaint o weithgareddau yn cael eu dyblygu a bod gymaint o adnoddau â phosibl ar gael er budd pobl, busnesau, cymunedau ac amgylchedd Cymru.

⁵ WEFO: [Rhaglenni Cydyfeirio](#) [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

⁶ WEFO: [Rhaglen Weithredol Cydyfeirio ESF](#) [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

⁷ WEFO: [Rhaglen Weithredol Cydyfeirio ERDF](#) [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

⁸ WEFO: [Rhaglen Weithredol Cystadleurwydd Rhanbarthol a Chyflogaeth ESF](#) [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

⁹ WEFO: [Rhaglen Weithredol Cystadleurwydd Rhanbarthol a Chyflogaeth ERDF](#) [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

¹⁰ WEFO: [Rhaglen Weithredol Drawsffiniol Iwerddon Cymru](#): tudalen 44 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

¹¹ WEFO: [Atlantic Area Operational Programme](#): tudalen 34 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

¹² WEFO: [North-West Europe Operational Programme](#): tudalen 58 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

¹³ WEFO: [Inter-regional Operational Programme](#): tudalen 44 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

¹⁴ WEFO: [Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007 - 2013 yng Nghymru](#) [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

4: Sut y caiff y cronfeydd strwythurol eu rheoli yng Nghymru?

Mae'r sefydliadau sy'n rheoli'r rhaglen gydgyfeirio a'r rhaglen cystadleurwydd a chyflogaeth rhanbarthol yn cynnwys:

- **Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)** yw'r rhan o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli rhaglenni. Mae'n asesu ceisiadau am arian, yn talu arian i ymgeiswyr llwyddiannus ac yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau arolygu. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys ymweliadau arolygu a gwirio a gynhelir i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio yn briodol ac er mwyn rhannu arfer gorau.¹⁵ At hynny, cyflawnir arolygiadau rheoli ariannol mewn perthynas â sampl o brosiectau er mwyn sicrhau bod systemau rheoli a chadw trefn yn gweithio;¹⁶
- **Y Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan** sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd y rhaglenni. Caiff ei gadeirio gan gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys 14 aelod a enwebir gan bartneriaid a chyrrff statudol a chaiff 10 aelod arall eu henwebu drwy'r broses penodiadau cyhoeddus. Mae'r pwyllgor yn cynnal hyd at bedwar cyfarfod y flwyddyn ac mae'r papurau ar gael ar wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.¹⁷

Rheolir y Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd gan nifer o awdurdodau rheoli ledled yr Undeb Ewropeaidd.

5: Pa brosiectau sydd wedi cael cyllid?

Ers 1 Gorffennaf 2010, mae cronfeydd strwythurol 2007 - 2013 yng Nghymru wedi ariannu 169 prosiect yn rhannol. Mae'n ofynnol bod rhan o gyfanswm costau gweithgareddau a gefnogir gan gronfeydd Ewropeaidd yn cael ei thalu o ffynhonnellau eraill. Gelwir hyn yn ariannu cyfatebol, ac mae'r swm y mae'n rhaid ei dalu o ffynhonnellau eraill yn amrywio'n fawr.¹⁸

Tabl 1: Gwerth buddsoddi mewn rhaglenni o 15 Gorffennaf 2010 ymlaen (£)

	ERDF	ESF	Cyfanswm
Cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd	1,112.3	753.3	1,865.6
Cyfanswm y cronfeydd (gan gynnwys arian cyfatebol)	1,982.3	1,221.9	3,204.2
Cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi'u neilltuo	726.9	609.5	1,336.4
Cyfanswm y buddsoddiad (gan gynnwys arian cyfatebol)	1,590.3	1,134.1	2,724.3
Gwariant a hawliwyd a thalwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru	136.5	113.6	250.0

Ffynhonnell: [Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru](#)

Ceir rhestr o brosiectau a gaiff eu hariannu gan y rhaglen gydgyfeirio a'r rhaglen cystadleurwydd a chyflogaeth rhanbarthol ar gael ar [wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru](#).

¹⁵ WEFO: [Ymweliadau Arolygu a Gwirio Prosiectau](#) [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

¹⁶ WEFO: [Instructions for reporting accountants](#) [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

¹⁷ WEFO: [Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan 2007-2013](#) [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

¹⁸ Gweler y [Hysbysiad Hwylus ar arian cyfatebol yr UE](#) gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau

6: Sut y bydd sefydliadau'n gwneud cais am arian?

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gweithredu polisi agored ar gyfer cynigion, lle gall ymgeiswyr cymwys gyflwyno ceisiadau unrhyw bryd. Gellir crynhoi'r broses o wneud cais fel a ganlyn:

1. **Archwilio cychwynnol:** dylai ymgeiswyr posibl sicrhau bod eu prosiectau:
 - 1.1. Yn gymwys ar gyfer cymorth grant. Dylid edrych ar **gyfarwyddyd** Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar reolau cymhwyster, meini prawf dethol a meysydd eraill;
 - 1.2. Yn cyd-fynd â'r **fframweithiau strategol**, sy'n egluro ymhellach y mathau o weithgareddau sydd fwyaf tebygol o gyflenwi'r rhaglenni gweithredol; ac
 - 1.3. Wedi elwa o gynllunio cydweithio. Mae adran ar wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru lle gellir gosod a gweld **syniadau am brosiectau**.

Os gall ymgeiswyr posibl brofi bod yr **amodau** wedi'u bodloni, gallant ofyn am ganiatâd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i gyflwyno **datganiad o ddiddordeb**. Yna, caiff y cais ei ystyried.

2. **Datganiad o ddiddordeb:** Os rhoddir caniatâd i gyflwyno datganiad o ddiddordeb, bydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cysylltu â'r ymgeisydd ac yn ei arwain drwy'r broses. Caiff y datganiad o ddiddordeb ei asesu wedi iddo gael ei gyflwyno; a
3. **Cynnig manwl:** Os yw'r asesiad o'r datganiad o ddiddordeb yn un cadarnhaol, gwahoddir yr ymgeisydd i gyflwyno cynnig manwl i'w asesu'n llawn.

Mae cyngor a chymorth ar gael drwy:

- Linell gymorth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru: **0845 010 3355** (E-bost: **enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk**); a
- Timau Ewropeaidd Gofodol: mae'r rhain yn bodoli yng Nghymru ar gyfer rhanbarthoedd **y Gogledd**, **y Canolbarth**, **y De-orllewin** a'r **De-ddwyrain**. Maent yn darparu cymorth, gwybodaeth a chyngor am ddim i unrhyw un yng Nghymru sy'n ceisio manteisio ar Gronfeydd Strwythurol Ewrop. Sefydlwyd hefyd **[Dîm Ewropeaidd y Trydydd Sector](#)**.

7: Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am Gronfeydd Strwythurol Ewrop, cysylltwch â **Leon Goberman** (**Leon.Goberman@wales.gov.uk**), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

Gallwch weld rhestr lawn o **[hysbysiadau hwylus](#)** yma.

MRS 10/1705 Leon Goberman

Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF991NA neu anfonwch e-bost at **MembersLibrary@wales.gov.uk**